LMOSCYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 8 MAI 2024

PRESENNOL Cynghorydd B.A.L. Roberts (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

K.V. Broom	J.M. Charles	P. Cooper	D.M. Cundy
C.A. Davies	B. Davies	G. Davies	H.L. Davies
L. Davies	T. Davies	M. Donoghue	A. Evans
L.D. Evans	W.T. Evans	T.M. Higgins	J.K. Howell
P.M. Hughes	P. Hughes-Griffiths	J.D. James	M. James
H. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis	K. Madge
M. Palfreman	D. Price	S.L. Rees	H.B. Shepardson
R. Sparks	D. Thomas	E.G. Thomas	M. Thomas
J. Tremlett	A. Vaughan Owen	S. Williams	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	L.R. Bowen	M.D. Cranham	S.A. Curry
A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	C. Davies
Ll.M. Davies	S.L. Davies	D.C. Evans	H.A.L. Evans
N. Evans	R.E. Evans	J.P. Hart	R. James
G.H. John	A.C. Jones	A.G. Morgan	D. Nicholas
D. Owen	B.D.J. Phillips	E.M.J.G. Schiavone	J. Seward
E. Skinner	G.B. Thomas	P.T. Warlow	D.E. Williams
J. Williams			

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddD. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth y Cynghorwyr K. Davies, S. Godfrey-Coles, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, N. Lewis, A. Leyshon and F. Walters.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD (OS OES RHAI)

- Bu'r Cadeirydd yn myfyrio ar fis prysur arall iddi hi a'i Chydymaith a chyfeiriodd at ei phresenoldeb yng Ngŵyl Lenyddiaeth Llandeilo.
- Croesawodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, y Cynghorydd Steve Williams i'w gyfarfod cyntaf ar ôl cael ei ethol yn ddiweddar i gynrychioli Ward Elli.
- Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Glwb Rygbi Crwydriaid Llanelli ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Adran 1 yn Stadiwm Principality Caerdydd fis Ebrill.
- Estynnodd y Cynghorydd Handel Davies longyfarchiadau i Glwb Rygbi Llanymddyfri am ennill teitl Cwpan Her Undeb Rygbi Cymru yn ddiweddar. Y trydydd tro iddyn nhw ennill y gwpan.
- Estynnodd y Cynghorydd Edward Thomas longyfarchiadau i dîm o dan 18 Clwb Rygbi Llandeilo am ennill 10 allan o 10 gêm ac am ennill Cwpan Clybiau o dan 18 Undeb Rygbi Cymru yn Stadiwm Principality. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r tîm Hŷn ar ennill 13 o gemau.
- Gwnaeth y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, longyfarch Gill Adams, a gafodd ei chyflwyno â Gwobr y Butler Trust gan Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol mewn seremoni yn Llundain i gydnabod ei hymroddiad i gyfiawnder ieuenctid a'i rôl ehangach fel Prif Reolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin.
- Cydymdeimlodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, â theuluoedd tri o gyn-gynghorwyr Sir Gaerfyrddin, sef Ivor Jackson a gynrychiolodd Ward Llanymddyfri, Ieuan Jones a gynrychiolodd Ward Llandeilo a Ryan Bartlett a gynrychiolodd Ward y Betws. Cynhaliwyd munud o dawelwch er cof amdanynt.

4. CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)

Ni wnaethpwyd unrhyw gyhoeddiadau.

5. LLOFNODI YN GOFNODION CYWIR COFNODION CYFARFODYDD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y:-

5.1. 28AIN CHWEFROR 2024

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mynegwyd fod y datganiad gan y Cynghorydd Fiona Walters o dan gofnod 2 a 9.1 yn anghywir, datganwyd y buddiant gan y Cynghorydd Linda Evans.

PENDERFYNWYD yn amodol ar y newid uchod, y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2024 yn gofnod cywir.

5.2. 6ED MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024 yn gofnod cywir.

6. RECRIWTIO I SWYDD CYFARWYDDWR ADDYSG, PLANT A GWASANAETHAU TEULU (A PHRIF SWYDDOG ADDYSG STATUDOL.)

Derbyniodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg ar Recriwtio i swydd Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (a Phrif Swyddog Addysg Statudol), a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl am y swydd a'r trefniadau Dyletswyddau Uwch dros dro os oedd angen.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai'r Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd presennol yn gadael y Cyngor ar 31 Hydref 2024.

Felly, byddai angen i'r Cyngor gymeradwyo'r trefniadau i benodi Cyfarwyddwr Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd newydd sy'n ymgorffori rôl statudol y Prif Swyddog Addysg. Adroddwyd bod swydd y Prif Swyddog Addysg yn swydd statudol benodedig o dan A.532 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor i benodi swyddog fel ei Brif Swyddog Addysg.

Byddai angen gweithredu trefniadau dros dro drwy gynnal ymarfer mynegiant o ddiddordeb mewnol i geisio ceisiadau gan unigolion cymwys sydd â phrofiad perthnasol pe na bai penodiad y Cyfarwyddwr newydd mewn lle cyn ymadawiad y deiliad swydd presennol.

Nododd y Cyngor nad oedd yn ofynnol yn ôl y Gyfraith i fynnu bod Athro cymwysedig yn cyflawni'r ddyletswydd statudol, fodd bynnag, roedd y gofyniad cymhwyster hwn wedi'i gynnwys fel maen prawf dymunol.

PENDERFYNWYD

6.1 cymeradwyo'r Proffil Swydd a'r Fanyleb Person a atodwyd i'r adroddiad.

6.2 bod y trefniadau interim arfaethedig yn cael eu gweithredu, pe bai eu hangen.

7. PENODI SWYDDOG MONITRO DROS DRO

Derbyniodd y Cyngor adroddiad, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gartrefi, yn nodi argymhelliad y Pwyllgor Penodi 'B' a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024, a dynodi Mr Steve Murphy yn Swyddog Monitro'r Cyngor ar sail dros dro, yn dilyn ymddeoliad Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (a Swyddog Monitro) presennol ar 31 Mai 2024.

Nodwyd bod y penodiad yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn:

- Cydymffurfio â gofynion Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a chyflawni rôl a chyfrifoldebau statudol y Swyddog Monitro o dan y Ddeddf honno.
- Sicrhau bod trefniadau dros dro yn cael eu cynnal i fodloni gofynion statudol tra'n disgwyl y penodiad i'r swydd barhaol. Rhagwelwyd y byddai'r broses recriwtio barhaol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2024.
- Sicrhau bod Swyddog Monitro mewn lle i gwmpasu'r rolau statudol a chyfansoddiadol fel y nodir yn Erthygl 11 (Swyddogaethau Swyddog Monitro) Cyfansoddiad y Cyngor.

Diolchodd y Cyngor i L. R. Jones am ei hymroddiad a'i chefnogaeth yn ystod ei chyflogaeth gyda'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD nodi argymhelliad y Pwyllgor Penodi 'B' a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2024, a dynodi Mr Steve Murphy yn Swyddog Monitro'r Cyngor ar sail dros dro, yn dilyn ymddeoliad y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith (a Swyddog Monitro) presennol ar 31 Mai 2024.

8. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET MEWN PERTHYNAS Â'R EITEM CANLYNOL:-

8.1. FERSIWN DRAFFT O GYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-28 (Cabinet 18/03/2024)

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2024 (gweler cofnod 6) wedi ystyried Cynllun Cydraddoldeb Strategol (drafft) 2024-28 a baratowyd i amlinellu sut y byddai'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol Cymru ac yn adeiladu ar gynlluniau blaenorol y Cyngor. Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi'r cynllun newydd ym mis Ebrill 2024.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn crynhoi ac yn disodli'r ddeddfwriaeth flaenorol, ynghyd â symleiddio ac atgyfnerthu'r ddeddf fel ei bod yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010. Mae Dyletswyddau Penodol wedi'u cyflwyno ar gyfer Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru ac mae datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn un o'r dyletswyddau hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio wrth baratoi'r cynllun newydd bod nifer o wahanol elfennau yn cael eu hystyried a gwaith ymgysylltu â sefydliadau eraill ac Awdurdodau Lleol a

phartneriaid yn y PBS. Nodwyd bod y cynllun yn waith ar y gweill ac y byddai'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i adroddiadau ychwanegol fel Cynllun Gweithredu ar Anabledd Llywodraeth Cymru ddod ar gael.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio mewn ymateb i ymholiad ynghylch faint o ddata a oedd yn ymwneud â Chymru gyfan yn hytrach na Sir Gaerfyrddin yn unig a'r ple i gasglu mwy o ddata lleol, yn rhoi sicrwydd y byddai data lleol yn cael ei ddefnyddio wrth iddo ddod ar gael.

Gofynnwyd a allai'r camau ynghylch monitro tensiynau cymunedol sy'n dod i'r amlwg a gweithio gyda phartneriaid allweddol gael eu hehangu i gynnwys cyfeiriad penodol at Gynghorwyr Sir a Chymuned ac a ellid rhoi sicrwydd y byddai aelodau'n cael cyfle i godi materion yn ffurfiol o fewn eu cymunedau. Yn ogystal, gofynnwyd a ellid darparu cyngor a chymorth priodol i nodi risgiau posibl ac wrth ddatblygu a gweithredu mesurau adfer gyda'r cymunedau. Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio fod y tîm Cydlyniant Cymunedol yng Nghaerfyrddin bob amser ar gael i'r holl aelodau siarad â nhw a mynd atynt am gyngor.

PENDERFYNWYD:

8.1.1 cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
8.1.2 cytuno ar yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol.

9. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y

9.1. 4YDD MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2024.

9.2. 18FED MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024.

9.3. 25AIN MAWRTH 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2024.

9.4. 15FED EBRILL 2024

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2024.

10. RHYBUDDION O GYNNIG (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim Rhybuddion o Gynnig wedi dod i law.

11. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

12. CYFLWYNO DEISEB

Gwahoddodd y Cadeirydd Ms Liz Hurley i gyflwyno'r ddeiseb ganlynol, ynghyd â sylwadau ategol:-

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn am weithredu ar unwaith gan Gyngor Sir Caerfyrddin i adfer toiledau cyhoeddus yn Nhref Porth Tywyn, rhaid i'r bloc toiledau dywededig fod yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, pobl anabl a phobl oedrannus, a'r rhai sydd â babanod neu blant ifanc. Mae'n rhaid diogelu'r adeilad rhag fandaliaeth, gan sicrhau bod trefn lanhau a rheolaeth briodol ar waith, er mwyn adfer balchder yn ein tref a chroesawu twristiaid. Gofynnwn i'r Cyngor Tref a'r grwpiau cymunedol perthnasol fod yn rhan o'r gwaith o'r cam cynllunio hyd at y broses o ailagor y cyfleusterau cyhoeddus.'

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith i'r ddeiseb a chadarnhaodd fod y mater y cyfeiriwyd ato yn y ddeiseb yn swyddogaeth weithredol ac o'r herwydd fod y Cyngor ond yn gallu cyfeirio'r mater at y Cabinet i'w ystyried.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gyfeirio'r ddeiseb at y Cabinet i'w hystyried yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 10.14.

13. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

13.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES I'R CYNGHORYDD ALED VAUGHAN OWEN - YR AELOD CABINET DROS NEWID HINSAWDD, DATGARBONEIDDIO A CHYNALIADWYEDD

"Dangosodd waith ymchwil diweddar gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol nad yw dwy ran o dair o gynghorau yn Lloegr yn hyderus y byddent yn cyrraedd eu targedau Carbon Sero Net o fewn eu hamserlenni targed tra bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio ar raglen drosglwyddo a chymorth newid hinsawdd i geisio helpu'r sector cyhoeddus i gyrraedd targed Carbon Sero Net Llywodraeth Cymru erbyn 2050.

O ystyried y wybodaeth hon, yn ogystal â chydnabod y pwysau ariannol difrifol cyffredinol a wynebir gan Awdurdodau Lleol, mae cyrraedd targedau Sero Net hyd yn oed yn fwy heriol nag erioed.

Ble mae'r Cyngor hwn yn sefyll ar hyn o bryd mewn perthynas â'i amcanion presennol a'r nod yn y pen draw o gyrraedd targed mwy uchelgeisiol Carbon Sero Net 2030?"

Ymateb gan y Cynghorydd Aled Vaughan Owen – Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Diolch i'r Cynghorydd James am godi'r cwestiwn hwn heddiw. Fel Awdurdod Lleol, gwnaethom addewid i'n preswylwyr ac i genedlaethau'r dyfodol - datganiad o argyfwng hinsawdd ac ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2030.

Rydym yn deall pa mor bwysig yw hyn, rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gennym fel Awdurdod Lleol i'w chwarae wrth i ni liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a gwarchod bioamrywiaeth ac rydym yn cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau. Y pwysau ariannol o gyflawni nod mor uchelgeisiol yn enwedig pan yr ydym yn gweithio gyda'r Llywodraeth Geidwadol yn Llundain a gafodd eu trechu yn y llys yr wythnos diwethaf - am yr eildro - am beidio â gwneud digon i gyrraedd ei thargedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

I'ch atgoffa, cytunwyd yn ein cynllun yn 2020 i ganolbwyntio ar 4 maes allweddol – ein hadeiladau annomestig, ein goleuadau stryd, milltiroedd ein fflyd a'n milltiroedd busnes. Gallaf gadarnhau ar hyn o bryd bod ein hallyriadau carbon oddeutu 36% yn llai ers ein flwyddyn waelodlin cyn Covid. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod hyn yn ostyngiad sylweddol. Ond nid ydym yn arafu, rwy'n falch o'r gwaith aruthrol sydd wedi'i wneud gan swyddogion ymroddedig i ganolbwyntio ar ein fflyd sy'n cyfrannu tua 19% o'n hallyriadau. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yn unig gyda chefnogaeth ein Panel Ymgynghorol Hinsawdd a Natur, sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r siambr hon, rydym wedi cynyddu ein fflyd cerbydau trydan i 40 o gerbydau ac wedi gosod mewn polisi y rhagdybiaeth ar gyfer cerbydau trydan ym mhob pryniant yn y dyfodol.

Ond rydym yn ymwybodol nad oes gennym ni fel Awdurdod Lleol yr holl ddulliau sydd eu hangen i fod yn sero net oni bai bod llywodraethau ar bob lefel yn penderfynu cau'r bwlch rhwng rhethreg a realiti a sicrhau ein bod ni ar y trywydd iawn tuag at drawsnewid cyfiawn i ddyfodol mwy cynaliadwy gyda mecanweithiau ariannu priodol.

Ond ni fyddwn yn eistedd yn ôl, a dim ond canolbwyntio ar y cwmpas hwnnw o'r hyn yr oeddem yn ei ystyried yn wreiddiol yn Sero-Net, rydym bellach yn trosglwyddo ein dysgu i feysydd eraill o fewn y Cyngor ac yn prif ffrydio hinsawdd a natur ym mhob penderfyniad a wnawn. Does ond angen i chi edrych ar ein cynllun corfforaethol, ein strategaeth drawsnewid neu hyd yn oed ein strategaeth gaffael - mae hinsawdd a natur wedi'u hymgorffori yn y ffyrdd o weithio ym mhob un ohonynt. Nid pethau dymunol i'w cael neu fuddion ymylol mohonynt bellach, dyma'r ffordd yr ydym yn gwneud busnes.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Ystyriwch ein cartrefi newydd, sydd wedi'u hadeiladu i'r safonau amgylcheddol uchaf posibl, gan ddysgu o ddyluniadau ysgolion lefel passivehaus yr ydym wedi'u hadeiladu, ôl-ffitio ein stoc sy'n heneiddio i ddarparu'r safon tai orau bosibl i denantiaid gan leihau biliau a gofalu am y blaned.

Rydym bellach yn cwblhau modiwlau hyfforddi ar lythrennedd carbon i holl weithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin. Dychmygwch dros 8000 o staff mewn un sefydliad wedi'u hyfforddi'n llawn, gan ddeall yr heriau sydd o'n blaenau ac yn gallu cyfrannu at y camau gweithredu brys sydd eu hangen o ran argyfyngau hinsawdd a natur.

Oes, mae heriau o'n blaenau ond yn wahanol i'r hyn y byddai rhai pobl yn dadlau - nid yw'n rheswm i roi'r gorau iddi ond yn hytrach i godi a gwneud y peth iawn.

Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd John James

Beth yw ein strategaeth barhaus a hirdymor ar gyfer ymgysylltu a chynnwys preswylwyr Sir Gaerfyrddin wrth wireddu ymrwymiad y Cyngor hwn tuag at ddyfodol carbon isel?

Ymateb gan y Cynghorydd Aled Vaughan Owen – Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Diolch yn fawr, Gynghorydd James. Mae cydweithio'n allweddol, felly drwy gydweithio ar draws sectorau, diwydiannau a chymunedau gallwn gyflawni cynnydd sylweddol. Trwy weithredu ar yr heriau mwyaf sy'n wynebu dynoliaeth. Ac rwy'n falch o ddweud, ar lefel genedlaethol, ein bod yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid fel CLILC a Llywodraeth Cymru i gefnogi Rhaglen Hinsawdd Genedlaethol Cymru i ymgysylltu â'r cyhoedd. .

Yn fuan, byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Ynni Ardal Lleol ar gyfer Sir Gaerfyrddin sydd wedi'i gyd-ddatblygu gyda'r sector cyhoeddus a phreifat, rheoleiddwyr a'r gymuned i'n gosod ar daflwybr i ddatgarboneiddio system ynni'r Sir gyfan dros y degawd nesaf. Bydd hwn yn sbardun pellach i gynnwys ein cymunedau.

Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ariannu tua £7.5 miliwn mewn prosiectau cymunedol yn seiliedig ar yr hinsawdd, natur a'r economi gylchol. Dychmygwch yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar bentrefi a threfi Sir Gaerfyrddin.

Mae ein tîm adfywio wedi cefnogi dros 24 o fusnesau i osod technolegau ynni adnewyddadwy ac arbed cannoedd o dunelli o garbon bob blwyddyn gyda mwy a mwy o fusnesau yn cyflwyno mynegiannau o ddiddordeb bob wythnos.

Ond fel Cyngor, ein hasedau mwyaf pwerus yw ni, yr aelodau etholedig. Dychmygwch y gallu i ysbrydoli ein cymunedau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur trwy lunio polisïau ac arwain trwy esiampl. Fodd bynnag, mae llai na hanner ohonom wedi manteisio ar y cyfle i wella ein llythrennedd carbon drwy'r hyfforddiant sydd ar gael. Os oes unrhyw aelod arall yn y siambr hon yn

dymuno gwneud y cwrs, cysylltwch â mi ar ôl y cyfarfod er mwyn i ni allu gwneud y trefniadau.

Ac wrth i ni barhau ar y daith hon, gadewch inni gadw mewn cof y gwaddol yr ydym yn ei adeiladu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd ein gweithredoedd heddiw yn siapio'r byd y maen nhw'n ei etifeddu yfory. Gadewch i ni gael ein cofio nid am yr heriau a wynebom, ond am feiddgarwch ein huchelgais a'r penderfynoldeb a ddangosom.

14. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

14.1. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU A PHANELU'R CYNGOR A GYNIGIR GAN Y GRWP LLAFUR

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau canlynol a gynigiwyd gan y Grŵp Llafur i aelodaeth Pwyllgorau a Phanelau:

·Y Cynghorydd Anthony Leyshon i gymryd lle'r Cynghorydd Deryk Cundy ar Y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio
Y Cynghorydd Janet Williams i gymryd y sedd wag ar Y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

- **Y Cynghorydd Tina Higgins i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Penodi A**
- **Y Cynghorydd Nysia Evans i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Penodi B**
- **Y Cynghorydd Philip Warlow i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Safonau**
- **Y Cynghorydd Deryk Cundy i gymryd y sedd wag ar Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe**
- **Y Cynghorydd Deryk Cundy i gymryd y sedd wag ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
- **Y Cynghorydd Deryk Cundy i gymryd y sedd wag ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru – Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Y Cynghorydd Philip Warlow i gymryd y sedd wag ar y Panel Ymgynghorol Ynghylch Y Polisi Tâl

14.2. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU A PHANELU'R CYNGOR A GYNIGIR GAN AELODAU HEB GYSYLLTIAD:-

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau canlynol a gynigiwyd gan yr Aelodau heb gysylltiad pleidiol i aelodaeth Pwyllgorau a Phanelau:

·Y Cynghorydd Steve Williams i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- **Y Cynghorydd Steve Williams i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Y Cynghorydd Michael Cranham i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Apêl**
- **Y Cynghorydd John James i gymryd y sedd wag ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
- **Y Cynghorwyr John James a Steve Williams i gymryd y seddi gwag ar y Pwyllgor Cynllunio**

14.3. CYMERADWYO'R NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r newidiadau canlynol i aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

- **Y Cynghorydd Tina Higgins i gymryd lle'r Cynghorydd Rob Evans fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Llafur.**
- **Y Cynghorydd Emlyn Schiavone i gymryd lle'r Cynghorydd Gareth Thomas fel un o gynrychiolwyr Grŵp Plaid Cymru.**

15. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellwyd ar yr agenda o dan 15.1 – 15.19 ar gael er gwybodaeth ar wefan y Cyngor.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf